

2025 Rhif (LIC25-53)

2025 No. (WG25-53)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A48
(Pen-sarn i Cross Hands, Sir
Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2025

The A48 Trunk Road (Pen-sarn to
Cross Hands, Carmarthenshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2025

Gwnaed

23 Medi 2025

Yn dod i rym

29 Medi 2025

Made

23 September 2025

Coming into force

29 September 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A48 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pen-sarn i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Medi 2025.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A48 Trunk Road (Pen-sarn to Cross Hands, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 29 September 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 29 Medi 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

Interpretation

2. In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A48 London to Fishguard Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 29 September 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar—

- (i) y darnau o gerbyttffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd Porth-y-rhyd hyd at Gyffordd Cross Hands.
- (ii) y darnau o gerbyttffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o allanfa Nant-y-caws hyd at Gyffordd Pen-sarn.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

23 Medi 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on—

- (i) the lengths of the eastbound and westbound carriageways of the trunk road that extend from Porthyrhyd Junction to Cross Hands Junction.
- (ii) the lengths of the eastbound and westbound carriageways of the trunk road that extend from the Nantycaws exit to Pen-sarn Roundabout.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

23 September 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government